**CYPE(6)-20-22 - Papur i'w nodi 6**

**Eluned Morgan AS/MS,**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

**Julie Morgan AS/MS,**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

**Lynne Neagle AS/MS,**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

Jane Bryant AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

11 Hydref 2022

Annwyl Gadeiryddion

Diolch am eich llythyr ar 11 Gorffennaf a'r e-bost dilynol gan y Clerc dyddiedig 28 Medi.

Erbyn hyn, mewn rhai achosion, mae'r sefyllfa wedi newid ers y cais a amlinellir yn y llythyr ar y cyd gwreiddiol gan y Pwyllgorau, a hynny gan fod nifer o ddogfennau wedi'u hanfon eisoes. O ganlyniad, roeddem o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe baem yn nodi'r sefyllfa bresennol a'n dull arfaethedig o symud ymlaen, yn enwedig gan ein bod, mewn rhai achosion, wedi ymrwymo eisoes i adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgorau.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod y ceisiadau a ganlyn wedi'u cyflawni:

- cafodd diweddariad ar ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystad carchardai i oedolion ei gyflwyno i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 2 Medi.

Bae Caerdydd Cardiff Bay
Caerdydd Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf • First Point of Contact Centre:
E-bost • E-mail:
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales
Ffôn • Tel: 0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- cafodd y papur tystiolaeth ysgrifenedig cyn gwaith craffu cyffredinol y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei gyflwyno ar 1 Medi. Roedd cwmpas eang a chymhlethdod y cais wedi sbarduno ymateb strategol, ond byddwn yn fodlon iawn ymdrin ag unrhyw fanylion o fewn y penawdau pynciol a amlinellodd y Pwyllgor yn ein sesiwn ar 6 Hydref.

- cafodd y papur tystiolaeth ysgrifenedig cyn y sesiwn graffu Weinidogol ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl ei gyflwyno ar 22 Medi. Roeddem yn falch o fynychu'r sesiwn ei hun ar 28 Medi, pan fu modd inni ateb cwestiynau pellach a phenodol gan aelodau'r Pwyllgor.

Cafwyd cais ychwanegol ar y cyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am yr wybodaeth ddiweddaraf am amryw o argymhellion mewn perthynas â'r ymchwiliadau a ganlyn a gynhaliwyd yn nhymor blaenorol y Senedd: Unigrwydd ac unigedd (Rhagfyr 2017); Y defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal (Mai 2018); 'Busnes Pawb': atal hunanladdiad (Rhagfyr 2018); Iechyd meddwl yng nghyd-destun plismona a dalfa'r heddlu (Hydref 2019); Effaith COVID-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant (Rhagfyr 2020); Iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru (Hydref 2017) ac Iechyd meddwl amenedigol – gwaith dilynol; 'Cadernid Meddwl' (Hydref 2018) a 'Cadernid Meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach' (Hydref 2020).

Ymrwymwyd yn flaenorol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r ddau Bwyllgor am y mwyafrif o'r ymchwiliadau hyn, a byddwch yn gwybod ein bod wedi darparu diweddariadau ysgrifenedig o sylwedd yn ddiweddar ynghylch 'Busnes Pawb': atal hunanladdiad, iechyd meddwl amenedigol, a darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystad carchardai i oedolion.

O ran y ceisiadau niferus eraill, yn arbennig gan nad oes unrhyw ymrwymiad i ddarparu diweddariadau ysgrifenedig achlysurol, mae cyfle hefyd, wrth gwrs, inni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgorau ac ateb cwestiynau drwy gydol y flwyddyn, fel rhan o'r sesiynau craffu cyffredinol a drefnir.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services